# 2.3.1. (a) Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Nod sylfaenol **cydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant** yw atal pob math o wahaniaethu.

Mae **gwahaniaethu** yn cyfeirio at unigolion yn cael eu trin yn llai teg neu'n llai ffafriol nag unigolion eraill.

Mae **amrywiaeth** yn ymwneud â derbyn, parchu a deall bod pawb yn unigryw, gan gydnabod gwahaniaethau unigol a chroesawu a dathlu'r cyfoeth o ddimensiynau amrywiol sydd gan bob unigolyn.

Mae **cynhwysiant** yn cael ei ystyried yn hawl ddynol gyffredinol. Nod cynhwysiant yw croesawu pob unigolyn, ni waeth beth yw ei hil, rhywedd, anabledd, anghenion meddygol neu anghenion eraill, rhoi mynediad a chyfleoedd cyfartal i bawb a chael gwared ar wahaniaethu ac anoddefgarwch ym mhob agwedd ar fywyd. Mae cynhwysiant yn galluogi unigolion i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol mewn gweithgareddau pob dydd. Mae'n golygu creu lleoedd y gall pawb eu defnyddio.

Mae **cydraddoldeb** yn cyfeirio at unigolion sy'n gyfartal o ran statws, hawliau neu gyfleoedd. Mae'n golygu sicrhau nad yw unigolion na grwpiau'n cael eu trin yn wahanol neu'n llai ffafriol ar sail nodwedd warchodedig benodol.

### Y naw nodwedd warchodedig

1. **Oedran**
2. **Anabledd**
3. **Priodas a phartneriaeth sifil**
4. **Beichiogrwydd a mamolaeth**
5. **Hil**
6. **Crefydd neu gred**
7. **Rhyw**
8. **Ailbennu rhywedd**
9. **Cyfeiriadedd rhywiol**

Caiff y naw nodwedd warchodedig eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n nodi na ddylid gwahaniaethu yn erbyn unigolion a grwpiau ar sail y nodweddion hyn. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pawb rhag gwahaniaethu gan fod gan bob un ohonom ni rai o'r nodweddion hyn.

### Termau allweddol

**Cydraddoldeb**
**Amrywiaeth**
**Cynhwysiant**
**Gwahaniaethu**



**Cael gwared ar wahaniaethu ac anoddefgarwch = dileu rhwystrau**